**LC363**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Addysg (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) (Rhoi Swyddogaeth) 2001

### Y cefndir

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi'r swyddogaeth i Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, swyddogaeth sydd i'w harfer gan yr Awdurdod yn unig, o wneud trefniadau ar gyfer datblygu, gosod a gweinyddu profion neu dasgau sydd i'w cymryd gyda golwg ar ennill pob cymhwyster allanol (ac eithrio Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol).

### Rheol Sefydlog 11.5

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Gorchymyn hwn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i nodi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. O ganlyniad, nid oes dim pwyntiau yn cael eu nodi bellach fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

20 Tachwedd 2001